# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o’r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn trwy cyfrwng fideo , Dydd Mercher, 26 Mehefin 2024 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies a/ac Emrys Wynne

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol -** Collette Owen

**Yn Cynrychioli Cymdeithasau Athrawon –** Sarah Griffiths

**HEFYD YN BRESENNOL**

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (PL), Prif Reolwr Addysg (JB), Cebtre Cenedlaethol Cymraeg ar Gyfer Swyddog Addysg Grefyddol (Dr JA) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (NH a RTJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Jennie Downes, Leah Crimes, Susan Williams, Jennifer Harding-Richards a’r Cynghorwyr Gill German a Delyth Jones.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Ellie Chard gysylltiad personol ag eitem 7 gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Tir Morfa.

Datganodd y Cynghorydd Emrys Wynne gysylltiad personol ag Eitem 7 gan ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Borthyn.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2024.

***PENDERFYNWYD:*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2024 yn gofnod gwir a chywir o’r gweithrediadau.*

### 5 CANOLFAN GENEDLAETHOL ADDYSG GREFYDDOL CYMRU

Rhoddodd Dr Joshua Andrews o Brifysgol Bangor gyflwyniad ar Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru.

Ail-lansiwyd y ganolfan yn 2022 gyda'r nod o gynnig arbenigedd academaidd a chefnogaeth addysgegol ar gyfer addysgu addysg grefyddol. Mae'r ganolfan yn canolbwyntio ar athroniaeth, crefydd a moeseg a'r gynulleidfa darged yw athrawon a myfyrwyr cyrsiau cynradd a TAR.

Mae'r ganolfan yn cynnig gweithgareddau allweddol, yn cynnwys:

- Gweithdai
- Sesiynau adolygu
- Digwyddiadau Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP)

Cafodd yr aelodau wybodaeth am lwyddiannau'r ganolfan yn ystod y 12 mis diwethaf, a oedd yn cynnwys:

- **Blychau Arteffactau:** crëwyd 10 bocs o arteffactau crefydd penodol ar gyfer addysgu crefyddau mwyaf y byd i'w benthyg i ysgolion
- **Sesiynau Adolygu Lefel A:** Trefnwyd sesiwn adolygu Lefel A mewnol ar gyfer myfyrwyr o Ynys Môn a Gwynedd, yn cynnwys sesiynau i fyfyrwyr Coleg Sir Gâr
- **Hyfforddiant DPP:** Darparwyd hyfforddiant DPP i athrawon ar Fwdhaeth a Hindŵaeth
- **Sesiynau ar-lein:** Cynhaliwyd sesiynau ar-lein o fis Hydref 2023 tan fis Ionawr 2024 ar gyfer myfyrwyr ac athrawon TGAU a Lefel A, i archwilio perthnasedd athroniaeth, moeseg a chrefydd mewn cymdeithas gyfoes
- **Ysgol Haf:** Cynhaliwyd ysgol haf ar-lein fis Gorffennaf 2023, gan ddarparu 15 o ddarlithoedd i gyflwyno testunau athroniaeth, moeseg a chrefydd i fyfyrwyr ar lefel prifysgol
- **Addysgeg Holocost:** Cafwyd panel ar addysgeg Holocost a rhoddwyd sgwrs ar-lein gan oroeswr i ysgolion uwchradd

Cafwyd gwybodaeth am brosiectau cyfredol, yn cynnwys sesiynau adolygu, lansiad cenedlaethol y canllawiau adolygu, Gwersi Heddwch a digwyddiadau DPP.

Darparwyd gwybodaeth am y prosiectau newydd mae'r ganolfan wedi'u cychwyn, yn cynnwys:

- Fideos Adolygu TGAU: Cyfres o fideos adolygu TGAU byr dan y teitl 'A Topic in Ten' ar wahanol agweddau ar faes llafur TGAU CBAC
- Podlediad athroniaeth: Mae podlediad ar athroniaeth, crefydd a moeseg Lefel A yn cael ei ddatblygu, sy'n canolbwyntio ar faes llafur Lefel A CBAC ac sy'n cynnwys trafodaethau gydag ysgolheigion
- Cwrs Gwella Gwybodaeth Pwnc: Mae cyrsiau ar-lein ar gyfer myfyrwyr TAR yn cael eu datblygu. Bydd y rhain hefyd ar gael i athrawon er mwyn gwella eu gwybodaeth am y pwnc

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Andrews am ei gyflwyniad a dywedodd fod croeso i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch plant o gefndiroedd gwahanol yn cael eu hintegreiddio gyda chrefyddau gwahanol pan fyddan nhw'n dechrau yn yr ysgol uwchradd. Eglurodd Dr Andrews fod gan bob ysgol faes llafur wedi'i llunio'n lleol sy'n gallu cynnwys credoau crefyddol yn y gymuned. Mae llawer o ysgolion wedi gofyn am sesiynau gan y ganolfan ar destunau penodol.

Trafododd yr aelodau yr Ysgol Haf a gynhaliwyd a holi a fyddai modd cynnal sesiynau gwahanol dros nifer o wythnosau yn ystod y gwyliau haf. Eglurodd Dr Andrews fod yr Ysgol Haf yn rhad ac am ddim, a bod sesiynau'n cynnal ar-lein er mwyn i fwy o bobl allu manteisio arnynt. Gall sesiynau ychwanegol fod yn bosibilrwydd, a bydd hynny'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w drafod a'i ystyried ymhellach.

Diolchodd yr aelodau i Dr Andrews am yr adnoddau gwerthfawr sydd ar gael drwy'r ganolfan, yn enwedig y blychau arteffactau a gofynnwyd iddo a oes gwefan ar gael i ysgolion wneud cais i'w benthyg. Dywedodd Dr Andrews fod gwefan ar gael a bod system rota ar gyfer benthyg y blychau arteffactau.

Holodd yr aelodau a oes modd i gydweithwyr o ysgolion cynradd ddefnyddio adnoddau'r ganolfan. Croesawodd Dr Andrews y syniad a dywedodd y byddai'n cyflwyno hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Diolchodd Dr Andrews i'r aelodau am eu sylwadau a'u hadborth.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Andrews am y cyflwyniad ac am ddod i'r cyfarfod, a chroesawodd y syniad o weithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.

***Penderfynwyd:*** *derbyn a nodi'r cyflwyniad ar y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol.*

## 6 RE HUBS

Mae Jennifer Harding yn ymddiheuro nad yw'n gallu bod yn bresennol. Bydd eitem ar RE Hubs yn cael ei chynnwys ar raglen Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn yr hydref.

***PENDERFYNWYD:*** *gohirio'r eitem ar RE Hubs tan gyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn yr hydref.*

## 7 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGON

Darparodd yr Ymgynghorydd AG drosolwg bras o ddadansoddiad adroddiadau arolygon CYSAG.

Mae'r dadansoddiad yn berthnasol i adroddiadau arolygon a gyhoeddwyd rhwng 7 Mehefin 2023 ac 1 Mai 2024.

Gan fod yr aelodau wedi darllen yr adroddiadau cyn y cyfarfod, gofynnodd yr Ymgynghorydd AG a oes gan unrhyw un gwestiwn neu sylwadau.

Dywedodd yr aelodau fod yr adroddiadau yn gadarnhaol iawn, ac roedd yn braf darllen sylwadau calonogol ar Les ac Agweddau ar Ddysgu a Gofal, Cefnogaeth a Chanllawiau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r Dadansoddiad Adroddiadau Arolygon.*

## 8 CCYSAGC

Nid oedd cynrychiolydd Enwadau Crefyddol yn gallu bod yn bresennol. Darparodd y Cynghorydd Ellie Chard y wybodaeth ddiweddaraf ar eu rhan.

Roedd y gynhadledd ym Mhrifysgol Wrecsam ar 13 Mehefin 2024 yn gyfle da i bawb sy'n ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg rwydweithio.

Cafwyd anerchiad ysbrydoledig gan yr Athro Graham Donaldson, a siaradodd am raddfa'r diwygiad addysg a oedd yn angenrheidiol i ymateb i ddisgwyliadau newydd a chynyddol o ran pwrpas addysg. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar anghenion cymdeithas sy'n newid yn gyflym a chysyniadau newydd am wybodaeth. Edrych ar fyd lle mae deallusrwydd artiffisial yn dominyddu a'r farchnad swyddi yn fwy hylifol a byd-eang. Mae sgiliau digidol yn dal yn cynyddu'n gyflym ac mae ar ddysgwyr angen y sgiliau anhepgor o greadigrwydd a meddwl beirniadol sydd eu hangen i addasu ac esblygu dysgu gydol oes.

Cafwyd anerchiad gan Ysgrifennydd Cabinet Addysg, Lynne Neagle ac Esgob Llandaf sy'n gyfrifol bortffolio addysg yr Eglwys yng Nghymru a mynegodd y ddau eu cefnogaeth i CCYSAGC.

Roedd y gweithdai a'r seminarau ar gael cyn diwrnod y gynhadledd, ar y diwrnod (mi fyddan nhw dal ar-lein fis Medi), gan archwilio cynllunio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg beirniadol, gwrthrychol a phlwraliaethol o'r blynyddoedd cynnar i leoliadau cynradd ac uwchradd.

Ar ddiwrnod y gynhadledd rhoddodd athrawon o bob cwr o Gymru gipolwg ar eu siwrneiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac roedd nifer o enghreifftiau o addysgeg greadigol.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol CCYSAGC ar ddiwedd y gynhadledd. Diolchwyd i bawb a oedd yn rhan o drefniadau'r gynhadledd am eu gwaith caled ac i ALl Wrecsam am ei chynnal.

Bydd cyfarfod gweithredol nesaf CCYSAGC ar 2 Hydref 2024 gyda'r cadeirydd newydd, y Parch. Edward J Evans.

***PENDERFYNWYD:*** *nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am CCYSAGC.*

## 9 DYDDIAD CYFARFODYDD NESAF SIR DDINBYCH

Bydd cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych yn cael ei gynnal ar 15 Hydref 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10am

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag